



**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**  
**Older People's Commissioner for Wales**

## **Llywio'ch Ffordd trwy Wasanaethau Cymdeithasol**

**Daflen Ffeithiau 7: Amddiffyn pobl rhag  
camdriniaeth ac esgeulustod**

# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru. Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, eu bod yn cael dewis a bod ganddynt reolaeth, nad ydynt yn teimlo'n unig nac yn dioddef gwahaniaethu a'u bod yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n lle da i heneiddio ynddo, nid i rai pobl yn unig ond i bawb.

## Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru  
Adeiladau Cambrian  
Sgwâr Mount Stuart  
Caerdydd  
CF10 5FL

Ffôn: 029 2044 5030  
E-bost: [gofyn@olderpeoplewales.com](mailto:gofyn@olderpeoplewales.com)  
Gwefan: [www.olderpeoplewales.com](http://www.olderpeoplewales.com)  
Trydar: [@comisiwnphcymru](https://twitter.com/comisiwnphcymru)

# Amddiffyn pobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod

Tybir fod unigolyn yn 'oedolyn mewn perygl' os yw'n profi (neu mae mewn perygl o brofi) camdriniaeth neu esgeulustod, heb y gallu i amddiffyn eu hunain a bod ganddynt anghenion gofal a chymorth (nid yw'n gwneud gwahaniaeth a yw'r Awdurdod Lleol yn diwallu'r anghenion hynny ar y pryd ai peidio).

Mae'r Ddeddf yn diffinio 'camdriniaeth' fel camdriniaeth gorfforol, seicolegol, emosiynol neu ariannol (ac mae'n cynnwys camdriniaeth sy'n digwydd mewn unrhyw leoliad, boed yn gartref preifat, sefydliad neu unrhyw le arall), ac mae 'camdriniaeth ariannol' yn cynnwys:

- Arian neu eiddo'n cael ei ddwyn
- Cael eich twyllo
- Cael eich rhoi o dan bwysau oherwydd arian neu eiddo arall
- Eich arian neu eiddo arall yn cael ei gamddefnyddio.

Mae 'esgeulustod' yn golygu methiant i ddiwallu anghenion sylfaenol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol unigolyn, sy'n debygol o arwain at amharu ar lesiant yr unigolyn.

Mae enghreifftiau o gam-drin ac esgeuluso'n cynnwys:

- cam-drin corfforol - taro, slapio, gorddefnyddio neu gamddefnyddio meddyginiaethau, ataliaeth ddiangen, neu gosbi amhriodol
- cam-drin rhywiol – treisio neu ymosodiad rhywiol neu weithredoedd rhywiol nad yw neu na allai'r unigolyn agored i niwed gydsynio iddynt a / neu a oedd wedi'i roi o dan bwysau i gydsynio
- cam-drin seicolegol - bygwth niweidio neu adael, rheolaeth gymhellol, bychanu, cam-drin geiriol, cam-drin hiliol, ynysu neu dynnu gwasanaethau neu rwydweithiau cymorth yn ôl (mae rheolaeth gymhellol yn weithred neu batrwm o weithredoedd o ymosodiadau, bygythiadau, bychanu, bygwth neu gam-drin arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu ddychryn y dioddefwr)

- esgeuluso – methiant i ganiatáu mynediad at ofal neu wasanaethau meddygol, esgeulustod yn wyneb cymryd risgiau, methiant i roi meddyginiaethau rhagnodedig, methiant i helpu â hylendid personol neu fwyd, lloches, dillad; esgeulustod emosiynol
- cam-drin ariannol yn achos pobl a all fod angen gofal a chymorth

Os yw Awdurdod Lleol yn amau bod oedolyn mewn perygl, rhaid iddo ymchwilio i'r achos er mwyn penderfynu pa gamau a ddylid eu cymryd. Rhaid i unrhyw gamau a gymerir gael eu cofnodi yng Nghynllun Gofal a Chymorth yr unigolyn.

Os yw Awdurdod Lleol yn amau bod oedolyn mewn perygl, rhaid iddo wneud ymholiadau o fewn saith diwrnod gwaith. Mae'r Canllaw Statudol ar Ddiogelu yn rhoi rhagor o wybodaeth am y meysydd y dylid edrych arnynt pan fydd Awdurdod Lleol yn cynnal ymchwiliad.

Gall Awdurdod Lleol benderfynu diwallu anghenion gofal a chymorth unigolyn er mwyn eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod, boed hwy'n bodloni'r Meini Prawf Cymhwysedd Cenedlaethol (Adran [32](#) o'r Ddeddf) neu beidio.

Am ragor o wybodaeth, gweler Adran [126](#) o'r Ddeddf a [Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg](#), Tudalen 6.

## Gorchymynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion

Mae Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolyn yn caniatáu i swyddog o'r Awdurdod Lleol (a elwir yn Swyddog Awdurdodedig) i siarad yn breifat ag unigolyn yr amheuir sy'n 'oedolyn mewn perygl' i ganfod a yw'r unigolyn yn gallu gwneud penderfyniadau o'i wirfodd ac i'w galluogi i asesu a oes angen gweithredu mewn unrhyw ffordd.

Gall Swyddog Awdurdodedig wneud cais i swyddog barnwrol am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolyn i'w galluogi i gael mynediad i adeilad (e.e. cartref preifat, cartref gofal, neu ysbyty) er mwyn cynnal eu hymchwiliadau.

Am ragor o wybodaeth, gweler [Rheoliadau Gorchymynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion \(Swyddog Awdurdodedig\) \(Cymru\) 2015](#) a [Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg](#), Tudalen 14.

# Byrddau Diogelu Oedolion

O dan y Ddeddf, mae yna chwe Bwrdd Diogelu Oedolion yng Nghymru sy'n amddiffyn oedolion yn eu hardal sydd angen gofal a chymorth, ac sy'n cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso ( neu sydd mewn perygl o hynny). Bydd y Byrddau hefyd yn ymdrechu i atal pobl ag anghenion gofal a chymorth rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

Am ragor o wybodaeth am Fyrddau Diogelu Oedolion, gweler [Rheoliadau Byrddau Diogelu Oedolion \(Cyffredinol\) \(Cymru\) 2015](#), [Rheoliadau Byrddau Diogelu Oedolion \(Swyddogaethau a Gweithdrefnau\) \(Cymru\) 2015](#) a [Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg](#), Tudalen 24.

# Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn darparu cyngor a chymorth i Fyrddau Diogelu gyda golwg ar sicrhau eu bod yn effeithiol. Byddant yn adrodd ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau i ddiogelu oedolion (a phlant) yng Nghymru a byddant yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar feysydd y gellid eu gwella.

Am ragor o wybodaeth am y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, gweler [Rheoliadau Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol \(Cymru\) \(Rhif 2\) 2015](#) a [Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg](#), Tudalen 58.

